Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Bwrdd Rheoli
# Management Board

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2011, 09.30-10.00, Ystafell gynadledda 4B

**Yn bresennol:**
**Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc) (Cadeirydd)**
**Dianne Bevan (Prif Swyddog Gweithredu)**
**Keith Bush (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol)**
**Connie Cockburn (Pennaeth Ystadau a TGCh)**
**Non Gwilym (Pennaeth Cyfathrebu)**
**Sulafa Halstead (Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad)**
**Steven O'Donoghue (Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad)**
**Mair Parry-Jones (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi)**
**Kathryn Potter (Pennaeth Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau)**
**Craig Stephenson (Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau)**
**Helen Finlayson (Ysgrifenyddiaeth)**
**Virginia Hawkins (Rheolwr Prosiect a Pharhad Busnes)**
**Dan Collier (Dirprwy Glerc)**

**1. Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**
**Cafwyd ymddiheuriadau gan Adrian Crompton (Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad) a Sian Wilkins (Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth). Ni ddatganwyd buddiant.**

**2. Dadansoddiad effaith busnes a nodi'r prif wasanaethau i'w hadfer**
**Cyflwynodd Virginia Hawkins y papur, gan amlinellu'r broses ddatblygu a ddilynwyd mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid Gwasanaeth ers trafod y polisi yn y Bwrdd Rheoli ym mis Ionawr 2011.**

**Bu'r Bwrdd yn trafod y blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer adfer gwasanaethau, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â:**

- **Cymorth i'r Llywydd;**

- **Rôl Comisiwn y Cynulliad wrth gynllunio parhad busnes ac wrth weithredu cynllun gweithredu, yn enwedig os bydd digwyddiad yn achosi i benderfyniadau gael eu gwneud mewn meysydd sydd y tu allan i'r rheini a ddirprwywyd i'r Prif Weithredwr a Chlerc;**

- **Effaith y strwythur Pwyllgorau newydd ar gyflwyno meysydd blaenoriaeth;**

- **Adennill taliadau awtomataidd i'r Aelodau, staff cymorth a staff;**

- **Adfer gwasanaethau TGCh; a**

- **Yr angen am gynllun cyfathrebu mewnol ac allanol sy'n glir ac yn gadarn.**

**Cytunodd y Bwrdd ar y blaenoriaethau arfaethedig, yn amodol ar y materion a godwyd, a nododd y bydd dadansoddiad pellach o'r rhyngddibyniaeth rhwng meysydd gwasanaeth yn cael ei wneud er mwyn cyfrannu at y broses rheoli risg.**

**Amlinellodd Virginia Hawkins y camau nesaf ar gyfer datblygu strategaeth i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn y dadansoddiad, a manylodd ar gynlluniau gweithredu ar gyfer adfer gwasanaethau, gan gynnwys ystyried gwahanol fodelau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau yn ystod y broses adfer. Nododd y Bwrdd y bydd Virginia yn parhau i fod yn gyfrifol am barhad busnes tan fis Medi 2011, ac y byddai angen nodi lleoliad parhaol ar gyfer y cyfrifoldebau hyn yn y strategaeth.**

**Diolchodd Claire Clancy i Virginia ac i Dan Collier am eu gwaith ardderchog ac, yn benodol, eu modd trylwyr o weithio â'r Penaethiaid Gwasanaeth.**

**Ysgrifenyddiaeth**
**Mehefin 2011**